



---

Astudiaethau israddedig mewn

# Nyrsio

---

# Cynnwys

Croeso	t.1
Ein cyrsiau	t.2
Y broses ymgeisio	t.8

THE SUNDAY TIMES  
CANLLAW  
PRIFYSGOLION  
DA  
2024  
PRIFYSGOL Y  
FLWYDDYN YNG  
NGHYMRU

## Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Mehefin 2024), ond fe allai newid. Cyngorior darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

# Croeso

Yma yn Aberystwyth, rydym yn ymfalchïo mewn darparu profiad dysgu sy'n eich helpu i ddeall yr hyn sydd ei angen i gynnig gofal nyrsio o'r radd flaenaf.



Mae'r rhaglen nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnig profiad dysgu penodol ac agos-atoch chi. Mae'r gymuned a'r amgylchedd lleol wedi ein cynorthwyo i siapia'r cwricwlwm. Mae Canolfan Addysg Gofal Iechyd Prifysgol Aberystwyth yn newydd sbon, ac mae'n cynnwys Uned Sgiliau Clinigol, sef ystafelloedd efelychu hollol fodern lle gall myfyrwyr ddysgu ac ymarfer sgiliau clinigol mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Mae nyrsys Prifysgol Aberystwyth yn dathlu amrywiaeth, yn ymwneud yn rhagweithiol â'u taith ddysgu ac mae ganddynt yr hyder a'r hyblygrwydd i arwain a darparu gofal iechyd mewn lleoliadau gwledig a threfol. Maent yn deall cod ymarfer proffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a sut mae'n llywio'r dull o fynd ati bob dydd i ddarparu gwasanaeth nyrsio proffesiynol.

Fel nyrs, fe fydd galw o hyd am eich sgiliau, a bydd eich profiadau dysgu yn ystod eich cwrs gradd yn eich galluogi i ddatblygu eich hunanymwybyddiaeth, eich hyder a'ch arbenigedd clinigol. Mae nyrsio

yn broffesiwn hyblyg, ac mae cyfleoedd gwaith i'w cael mewn gofal sylfaenol, gofal eilaidd a thrydyddol, gwasanaethau cymunedol, addysg, ymchwil, rheolaeth, twristiaeth, diwydiant, y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac mewn mudiadau gwirfoddol ac elusenol. Wedi ichi gymhwyso bydd llu o gyfleoedd ar gael i'ch cynorthwyo i ddatblygu eich gyrfa, gan gynnwys swyddi ym maes rheoli ac ym maes ymarfer, ac ymchwil clinigol uwch ac arbenigol.

Mae rhan o'r rhaglen gyffredinol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ac os nad ydych yn siarad Cymraeg a bod arnoch eisiau dysgu'r iaith, mae'r rhaglen yn cynnig hefyd wersi sgwrsio Cymraeg ym maes iechyd trwy gyfrwng 'cornel coffi a chlonc'.

Bydd croeso cynnes yma ichi.

**Amanda Jones**  
Prif Arweinydd Addysg Gofal Iechyd



# Nyrsio (Iechyd Meddwl) 50<sup>+</sup> ar gael drwy'r Gymraeg

BSc (Anrh) | B760 | 3 blynedd

Mae ein rhaglen radd Nyrsio Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Aberystwyth, sydd wedi'i hachredu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn rhoi'r sgiliau a'r profiad i chi allu cwrdd ag anghenion iechyd y gymdeithas fel y maent yn datblygu, a hynny mewn proffesiwn amrywiol a gwerth chweil.

Wrth i ymwbyddiaeth o iechyd meddwl ddod yn fwyfwy cyffredin yn ein cymdeithas, rydym yn paratoi myfyrwyr i weithio gydag unigolion o bob oed, gydag ystod o brofiadau iechyd meddwl, mewn lleoliadau amrywiol. Fel nyrs iechyd meddwl, byddwch yn chwarae eich rhan i wella mynediad at ofal iechyd, lles, cynhwysiant cymdeithasol, ac ansawdd bywyd.

Byddwch yn datblygu sgiliau clinigol ac academiaidd o fewn system gefnogaeth gadarn a ddarperir gan diwtoriaid personol yn y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd, a chan Oruchwylwyr ac Aseswyr Ymarfer Clinigol pan fyddwch ar leoliadau, sy'n rhan annatod o'r rhaglen. Byddwch yn datblygu eich sgiliau clinigol yn ystod lleoliadau ymarfer, a allai olygu bod yn rhaid ichi deithio y tu hwnt i'r ardal leol.

Mae'r rhaglen nyrsio wedi mabwysiadu dull cymysg o ddysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr gan ddefnyddio cyfuniad o addysgu hunangyfeiriedig, ar-lein ac wyneb yn wyneb, a fydd yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng darlithoedd, seminarau, gwaith grŵp, cyflwyniadau, gweithdai, efelychiad, astudiaethau achos, cyfresi dysgu gweithredol a goruchwyliaeth glinigol. Ategir hyn gan ddysgu yn seiliedig ar sgiliau yn Uned Sgiliau Clinigol y Ganolfan.

Mae'r dysgu yn y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd yn Aberystwyth yn cael ei gyfoethogi gan ein Huned Sgiliau Clinigol newydd, lle ceir cyfres o ystafelloedd efelychu lle gallwch ddysgu ac ymarfer sgiliau clinigol mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Bydd ein cyfleusterau yn eich galluogi i roi eich gwybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchiad mor agos â phosibl o'r union amodau y byddwch yn eu profi pan fyddwch yn mynd ar leoliad mewn ysbty neu leoliad cymunedol.

## Cyflogadwyedd

Ar ôl graddio, byddwch yn gymwys i wneud cais am statws Nyrs Gofrestredig (Iechyd Meddwl) gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac i gofrestru fel nyrs i weithio yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Gallwch ddisgwyl cyflog cychwynnol o £25,655 gan godi i £53,219 ar gyfer nyrs staff hynod brofiadol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**  
Pwyntiau tariff UCAS: 104 - 96  
BR: 28-26 pwynt yn gyffredinol.

**Cyfweliad:** Yn unol â'r cynllun Unwaith i Gymru, bydd y sawl sy'n bodloni'r meini prawf derbyn yn cael eu gwahodd i fynychu Digwyddiad Dethol Myfyrwyr.

**Gofynion Ychwanegol:**  
Asesiad Iechyd a Chymeriad Da sy'n cynnwys:  
• Sgriniad Iechyd Galwedigaethol  
• Datgeliad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd  
(ar ôl i chi gael cynnig lle i astudio gyda ni).



## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Introduction to Professional Practice
- Developing Professional Practice
- Understanding the Human Body
- Arddangos Ymarfer Proffesiynol.

### Yr ail flwyddyn:

- Introduction to Field Specific Nursing
- Complex Field Specific Nursing
- Pathophysiology of Common Conditions
- Gwella Ymarfer Proffesiynol.

### Y flwyddyn olaf:

- Compassionate Leadership and Management
- Innovating Practice
- Transition to Autonomous Practitioner
- Arwain Ymarfer Proffesiynol.



# Nyrsio (Oedolion) 50% ar gael drwy'r Gymraeg

BSc (Anrh) | B740 | 3 blynedd

Mae ein rhaglen radd Nyrsio Oedolion ym Mhrifysgol Aberystwyth, sydd wedi'i hachredu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn rhoi'r sgiliau a'r profiad i chi allu cwrdd ag anghenion iechyd y gymdeithas fel y maent yn datblygu, a hynny mewn proffesiwn amrywiol a gwerth chweil.

Mae'r rhaglen Nyrsio Oedolion yn Aberystwyth yn datblygu gweithwyr nyrsio proffesiynol sy'n gallu darparu gofal rhagorol mewn amrywiaeth o leoliadau ac sy'n rhoi'r claf yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau. Dros eich tair blynedd, byddwch yn datblygu'r gallu i asesu, cynllunio, cyflwyno, gwerthuso a monitro gofal yn ddiogel ac yn effeithiol, ac i hyrwyddo urddas, gofal a thosturi.

Byddwch yn datblygu sgiliau clinigol ac academiaidd o fewn system gefnogaeth gadarn a ddarperir gan diwtoriaid personol yn y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd, a chan Oruchwylwyr ac Aseswyr Ymarfer Clinigol pan fyddwch ar leoliadau, sy'n rhan annatod o'r rhaglen. Byddwch yn datblygu eich sgiliau clinigol yn ystod lleoliadau ymarfer, a allai olygu bod yn rhaid ichi deithio y tu hwnt i'r ardal leol.

Mae'r rhaglen nyrsio wedi mabwysiadu dull cymysg o ddysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr gan ddefnyddio cyfuniad o addysgu hunangyfeiriedig, ar-lein ac wyneb yn wyneb, a fydd yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng darlithoedd, seminarau, gwaith grŵp, cyflwyniadau, gweithdai, efelychiad, astudiaethau achos, cyfresi dysgu gweithredol a goruchwyliaeth glinigol. Ategir hyn gan ddysgu yn seiliedig ar sgiliau yn Uned Sgiliau Clinigol y Ganolfan.

Mae'r lleoedd i astudio ar y rhaglen hon yn cael eu comisiynu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a bydd y cyllid i dalu ffioedd dysgu yn seiliedig ar Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru neu'r llwybr Cyllid Myfyriwr arferol. Mae rhagor o gymorth ariannol hefyd ar gael gan Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. Noder bydd yn rhaid ichi ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl ennill eich cymhwyster a chofrestru fel nyrs gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth os ydych yn derbyn Bwrsariaeth GIG Cymru. Caiff y broses hon ei rheoli'n ganolog gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, a bydd y Cynllun Symleiddio i Fyfyriwr yn sicrhau y byddwch yn cael eich rhoi mewn swydd addas yn eich dewis ardal.

## Cyflogadwyedd

Ar ôl graddio, byddwch yn gymwys i wneud cais am statws Nyrs Gofrestredig (Oedolion) gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac i gofrestru fel nyrs i weithio yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Gallwch ddisgwyl cyflog cychwynnol o £25,655 gan godi i £53,219 ar gyfer nyrs staff hynod brofiadol. Gall nyrsys arbenigol a rheolwyr practis ennill £45,000.

## Ffeithiau Allweddol



**Cynnig nodweddiadol:**  
**Pwyntiau tariff UCAS:** 104 - 96  
**BR:** 28-26 pwynt yn gyffredinol.



**Cyfweliad:** Yn unol â'r cynllun Unwaith i Gymru, bydd y sawl sy'n bodloni'r meini prawf derbyn yn cael eu gwahodd i fynychu Digwyddiad Dethol Myfyriwr.



**Gofynion Ychwanegol:**  
Asesiad Iechyd a Chymeriad Da sy'n cynnwys:

- Sgriniad Iechyd Galwedigaethol
- Datgeliad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

(ar ôl i chi gael cynnig lle i astudio gyda ni).



## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Introduction to Professional Practice
- Developing Professional Practice
- Understanding the Human Body
- Arddangos Ymarfer Proffesiynol.

### Yr ail flwyddyn:

- Introduction to Field Specific Nursing
- Complex Field Specific Nursing
- Pathophysiology of Common Conditions
- Gwella Ymarfer Proffesiynol.

### Y flwyddyn olaf:

- Compassionate Leadership and Management
- Innovating Practice
- Transition to Autonomous Practitioner
- Arwain Ymarfer Proffesiynol.



# Tystysgrif Addysg Uwch: Addysg Gofal Iechyd

2 flynedd, rhan-amser

Nod ein Tystysgrif mewn Addysg Gofal Iechyd ym Mhrifysgol Aberystwyth yw darparu profiad dysgu cynhwysol sy'n bodloni safonau Addysg y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CN&B) ar gyfer hyfforddiant nyrsio Rhan 1. Mae hyn yn golygu y bydd myfyrwyr ein Tystysgrif Addysg Uwch yn ymgymryd ag astudiaethau sy'n cyfateb i flwyddyn gyntaf ein rhaglen gradd BSc hyfforddiant nyrsio cyn-gofrestru, dros gyfnod o ddwy flynedd. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno a'i hasesu mewn partneriaeth â Phartneriaid Dysgu Ymarfer lleol, a bydd yn galluogi'r myfyrwyr i ddarparu gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r bobl y maent yn dod ar eu traws yn eu hymarfer clinigol.

Trwy gydol ein rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch, canolbwyntiwn ar gyflwyno theori ac egwyddorion nyrsio i'n myfyrwyr ac ategir hynny gan eu gwaith ym maes ymarfer proffesiynol. Bydd ein modiwlau theori yn canolbwyntio ar ddarparu gofal cyfannol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn datblygu dealltwriaeth am ddatblygiad dynol, ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles, darparu gwasanaethau, ymarfer nyrsio proffesiynol, anatomeg ddynol, ffisioleg a ffarmacoleg integredig.

Mae'r modiwlau theori yn para 7 wythnos ac ym mlwyddyn 1 fe'u darperir yn semestrau 1 a 2 yng nghalendr y Brifysgol, ac ym mlwyddyn 2 fe'u darperir yn semester 1 yn unig. Cewch eich rhyddhau am 15 awr yr wythnos o'ch prif swydd i fynychu'r modiwlau theori. Mae'r rhaglen hefyd yn golygu y bydd angen oriau o ddysgu ar eich liwt eich hun.

## Ffeithiau Allweddol



Oherwydd trefniadau cyllido, rhaid i'r myfyrwyr gael eu cyflogi mewn rôl gofal iechyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol yn rhanbarth Canolbarth Cymru i fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen.



Ewch i [www.aber.ac.uk/nyrsio](http://www.aber.ac.uk/nyrsio) am fanylion ar sut i wneud cais.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Introduction to Nursing Practice
- Developing Nursing Practice
- Demonstrating Nursing Practice.

### Y flwyddyn olaf:

- Developing Knowledge of the Human Body
- Demonstrating Nursing Practice.

# Dychwelyd i Ymarfer



## (Nyrsio Oedolion)

Mae Dychwelyd i Ymarfer (Nyrsio Oedolion) yn rhaglen ran-amser ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fe fydd yn rhoi profiad dysgu cynhwysol sydd yn cyflawni Safonau Dychwelyd i Ymarfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CN&B 2019). O'i chwblhau'n llwyddiannus gallwch wneud cais i gael eich derbyn yn ôl ar y gofrestr broffesiynol yn ymarferydd gofal iechyd cofrestredig annibynnol, a bod yn hyderus yn eich gallu i ateb anghenion gofal cyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar gyfer yr amrywiaeth hynod o bobl y byddwch yn eu cyfarfod wrth weithio.

Mae'r rhaglen yn addas hefyd i nyrsys nad ydynt yn gallu cyflawni gofynion y Cyngor Nyrsio & Bydwreigiaeth am nifer oriau ymarfer ar gyfer ail-ddilysu i aros ar y gofrestr broffesiynol.

Mae hwn yn fodiwl 60 credyd, lefel 6, rhan-amser a'i nod yw darparu'r wybodaeth, yr oriau ymarfer a'r cymwyseddau i gyflawni Safonau Dychwelyd i Ymarfer y Cyngor (CN&B 2019), a bod yn gymwys i gael eich derbyn yn ôl ar gofrestr y Cyngor. Trwy astudio'r modiwl gallwch adennill hyder a gloywi eich sgiliau a'ch wybodaeth mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Mae'r rhaglen yn para 20 wythnos i gyd, sef 22.5 awr yr wythnos. Bydd y pythefnos cyntaf yn seiliedig ar theori, i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r hyfforddiant sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer clinigol. Bydd y 18 wythnos ddilynol yn cynnwys un diwrnod dysgu cyfunol a dau ddiwrnod lleoliad ymarfer yr wythnos. Bydd eich shifftiau clinigol yn cael eu trefnu'n lleol gyda darparwr eich lleoliad. Bydd angen rhywfaint o hlybgrwydd i gwrdd â phatrymau shifft, anghenion myfyrwyr ac amgylchiadau personol. Bydd yr holl oriau ymarfer yn cael eu cofnodi a'u gwirio.



Ewch i [www.aber.ac.uk/nyrsio](http://www.aber.ac.uk/nyrsio) am fanylion ar sut i wneud cais.



# Y broses ymgeisio UCAS

Dylai myfyrwyr sy'n dymuno gwneud cais am Nyrsio (Oedolion) neu Nyrsio (Iechyd Meddwl) ddilyn y broses isod. Dylai myfyrwyr sydd â diddordeb yn y cyrsiau Tystysgrif Addysg Uwch: Addysg Gofal Iechyd neu Ddychwelyd i Ymarfer fynd i [aber.ac.uk/nyrsio](http://aber.ac.uk/nyrsio) i gael gwybodaeth am sut i wneud cais.

## 1 Gwnewch gais trwy UCAS.com

Gwiriwch y dyddiad cau UCAS ar UCAS.com. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40  
COFIWCH: Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y Brifysgol yn ystyried eich cynnig

COFIWCH: Defnyddiwch Hwb UCAS i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn saith diwrnod.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar Hwb UCAS

Bydd penderfyniad y Brifysgol yn cael ei ddangos ar Hwb UCAS - os ydych wedi derbyn cynnig, fe fyddwch yn gallu gweld pa raddau sydd angen arnoch i sicrhau eich lle.

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau Cadarn ac Wrth Gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis Cadarn/Wrth Gefn gallwch wneud cais am lety.


## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd Hwb UCAS yn dangos os yw eich lle wedi'i gadarnhau gyda'ch Dewis Cadarn. Os nad ydych wedi cael y graddau yr oeddech yn gobeithio, gallwch ystyried gwneud cais drwy Glirio.

## 7 Dechreuwch bacio!

Cofiwch gadw llygad ar eich e-byst am wybodaeth am eich diwrnod cyntaf a'r gweithgareddau croeso.





Canolfan Addysg Gofal Iechyd,  
Prifysgol Aberystwyth,  
Ffordd Penglais,  
Aberystwyth,  
Ceredigion SY23 3DU

@ nrsstaff@aber.ac.uk

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan  
Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,  
Prifysgol Aberystwyth 2024.



Argraffwyd ar bapur  
wedi'i ailgylchu 100%